

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **PWYLLGOR MATERION RHEOLI DATBLYGU**

**Cofnodion** cyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Iau, 6 Ebrill 2017 am 5.00pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M. Griffiths - Cadeirydd

#### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**

|                   |                  |            |
|-------------------|------------------|------------|
| L. M. Adams       | S. Rees          | P. Wasley  |
| J. Bonetto        | (Mrs) A. Roberts | E. Webster |
| (Mrs) S. J. Jones | G. Smith         |            |
| S. Powderhill     | (Mrs) J.S. Ward  |            |

#### **Swyddogion oedd yn Bresennol**

Mr. S. Gale – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio  
Mr S. Humphreys - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Cynllunio, a'r Amgylchedd  
Mr D. J. Bailey – Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Mr S. Zeinali – Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd

#### **158 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R. Lewis, G. Stacey a G. P. Thomas.

#### **159 DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol mewn materion yn ymwneud â'r agenda.

#### **160 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** - Nodi y dylai Aelodau'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu o'u blaen, rhoi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth wneud penderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

#### **161 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** - Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## **162 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** - Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2017 ac 16 Mawrth 2017 yn rhai cywir.

## **163 CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO**

**(1)Cais Rhif 13/1361: Adeiladu pedwar byngalo (cafwyd gwybodaeth ecolegol ychwanegol ar 26/03/15 a 09/02/15 a chafwyd cynlluniau diwygiedig ar 08/06/16 sy'n dangos mynediad diwygiedig i'r safle, troetffordd ychwanegol ar Arth Wen, lleoliad newydd i'r man troi a phatio blaen llai i randir 3), tir wrth ymyl "Garth Wen", Garth Road, Trealaw.**

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor - gohirio'r cais am archwiliad i'w gynnal gan y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu, er mwyn ystyried materion draenio, y priffyrdd, a strwythurol ac erffaith y datblygiad ar yr ardal gyfagos.

**(2)Cais rhif: 16/0538 - Gwaith arfaethedig i droi hen glwb yn dŷ â thair ystafell wely a 6 uned ag un ystafell wely (disgrifiad diwygiedig ar ôl diwygio cynlluniau), 10-12 Maddox Street, Clydach, Tonypandy.**

Yn ei adroddiad, roedd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio wedi nodi manylion y cais a argymhellir i'w gymeradwyo.

Ystyriodd y Pwyllgor y cynnig a **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

## **164 CAIS WEDI'I OHIRIO**

**Cais Rhif: 16/1319 – Gwaith addasu ar gyfer 8 fflat a siop ar y llawr gwaelod, llefydd parcio allanol, ardaloedd ag amwynderau a gwaith i ddymchwel y rhandy yn y cefn, Central Hotel, Clydach Road, Tonypandy.**

Yn unol â chofnod rhif 143 (Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu, 2 Mawrth 2017) cafodd y mater ei ohirio tan gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu. Roedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, oherwydd roedden nhw o'r farn bod y cynnig yn gorddatblygu'r safle a bod digon o barcio yn cael ei ddarparu fel rhan o'r datblygiad. Yn y cyfarfod nesaf bydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol os oes angen, yn cyflwyno adroddiad sy'n trafod

cryfderau a gwendidau gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad, cyn penderfynu ar y mater.

Nododd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio os, ar ôl ystyried ei adroddiad, bod yr aelodau yn dal o blaid gwrthod y cais, roedd y rheswm a awgrymwyd yn ei adroddiad yn adlewyrchu eu barn.

Yn dilyn ystyriaeth yn y mater, **PENDERFYNWYD** yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio, i wrthod y cais am y ddau reswm a nodir yn yr adroddiad ac am reswm ychwanegol, sef bod y cynnig i ddatblygu'r safle ar gyfer 8 fflat ynghyd â'r gwasanaeth presennol ar y safle yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch y briffordd. Bydd y geiriad yn cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Materion Cynllunio.

## **165 ADRODDIAD GWYBODAETH**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a dderbyniwyd, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau ar gyfer cyfnod 06/03/2017 tan 24/03/2017. Yn dilyn trafodaeth, felly, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

**M GRIFFITHS  
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20pm.

This page intentionally blank